# CYNLLUN GWELLA

# 2014 - 2015

## RHAN 1



BRECON BEACONS NATIONAL PARK

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

# Cynllun Gwella 2014 / 2015

## Cyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

## 2010 – 2015

# Ein Gweledigaeth ar gyfer Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Mae'r datganiadau gweledigaeth canlynol yn disgrifio uchelgeisiau cyffredinol i'r Parc ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf. Y datganiadau hyn yw canlyniad proses ymgynghori helaeth a ymchwiliodd i gyflwr y Parc ar hyn o bryd a'r cyflwr a ddymunir ar gyfer y dyfodol. Mae'r weledigaeth a nodau wedi'u seilio ar farn gyfunol y cyfranogwyr yn ogystal ag uchelgeisiau a chyfarwyddebau polisi gan gyrff llywodraethol. Maent yn ateb y cwestiwn, "Sut ddylai Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fod ymhen 20 mlynedd?"

## Rheoli Newid Gyda'n Gilydd - Yn 2030 bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:

- Yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol ac yn genedlaethol am ei werth fel ardal warchodedig, y mae'r rhyngweithiadau hirhoedlog rhwng pobl a phrosesau natur yn parhau i lunio ei gymeriad
- Yn cael ei gymeradwyo yn gyffredin oherwydd ei harddwch naturiol, geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol sy'n cael eu cadw a'u gwella trwy ddulliau traddodiadol ac arloesol
- Yn gyrchfan y mae galw mawr amdano sy'n darparu amrywiaeth anhygoel o gyfleoedd cynaliadwy i bawb ddeall a mwynhau ei heddwch, cymeriad gwledig, y ffordd Gymreig o fyw, teimlad o bellenigrwydd a rhinweddau eraill arbennig
- Yn wydn, yn agored ac yn ymatebol i newid - yn enwedig newid yn yr hinsawdd - a'i rhanddeiliaid yn rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol trwy weithredu lleol
- Yn dibynnu llai ar gadwyni cyflenwi allanol sy'n arwain at fwy o ddiogelwch bwyd ac ynni yn lleol, gwell ansawdd bywyd, cydlyniad cymunedol a chadwraeth cyfalaf naturiol
- Yn dirwedd fyw lle gall pobl ennill bywoliaeth o'r tir mewn dull arloesol a chynaliadwy, er enghraifft trwy ffermio, ond hefyd mewn ffyrdd newydd fel trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy er budd yr amgylchedd, yr economi a chymunedau lleol
- Yn cael ei reoli yn gynaliadwy11 trwy bartneriaethau gweithredol ymhlith rhanddeiliaid y Parc fel ei fod yn parhau i fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth a mwynhad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Yn cael ei fonitro dros y tymor hir i wella ymarfer polisi a rheoli yn y dyfodol

# Y Cynllun Gwella 2014/2015

1. Cyflwyniad Tudalen 4
2. Cysylltu'r Cynllun Gwella â'r Cynllun Rheoli Tudalen 4
3. Beth yw ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2014/2015 Tudalen 5
4. Alinio'r Blaenoriaethau Gwella â'r Adnoddau sydd Ar Gael Tudalen 6
5. Gweithio gyda Phartneriaid Tudalen 6
6. Craffu Tudalen 6
7. Cyflawni ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2014/2015 Tudalen 7
8. Monitro Perfformiad Tudalen 15

## 1. Cyflwyniad

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i ni (Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) gyhoeddi Cynllun Gwella sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n nodi ein blaenoriaethau ac amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Daw'r gofyniad o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae hefyd yn ofynnol i ni gyhoeddi ein hasesiad ni ein hunain sy'n ystyried pa mor dda yr ydym wedi perfformio mewn perthynas ag amcanion dynodedig erbyn 31 Hydref.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflenwi ei wasanaethau effeithlon ac amcanus. Mae ein gwaith yn cael effaith uniongyrchol ar y bobl sy'n cael mynediad at wasanaethau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac rydym ni am ddweud wrthynt sut yr ydym yn perfformio a beth yw ein blaenoriaethau am y flwyddyn sydd i ddod.

## 2. Cysylltu'r Cynllun Gwella â'r Cynllun Rheoli

| **Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2010-30** | **Ein sbardunau strategol am 20 mlynedd** |
|---|---|
| **Nodau Corfforaethol** | Yn deillio o'r Cynllun, yn cael eu cyrraedd dros gyfnod o 3-5 mlynedd |
| **Amcanion Blynyddol – gan gynnwys ein blaenoriaethau gwella** | Yn deillio o'r nodau corfforaethol, yn cael eu cyflawni dros gyfnod o 1-3 blynedd |
| **Camau gweithredu gan dimau ac unigolion** | Sut y byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau blynyddol |
| **Dangosyddion perfformiad** | Sut y byddwn yn mesur yr hyn yr ydym wedi'i wneud ac yn asesu a ydym wedi cyflawni'r amcanion a pha effaith y maent wedi'i chael. |

Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw'r ddogfen bolisi unigol bwysicaf ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Mae'n nodi'r weledigaeth ac yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a datblygu blaenoriaethau. Fe'i mabwysiadwyd yn 2010 ac mae'n rhychwantu cyfnod o 5 mlynedd tan 2015.

Paratowyd y Cynllun Rheoli gyda chyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach. Mae amcanion y Cynllun Rheoli wedi'u categoreiddio'n 6 thema sy'n cynnwys camau gweithredu penodol. Defnyddir y themâu i gytuno ac adrodd ar ddeilliannau a blaenoriaethau gwella yn y Cynllun Gwella. Mae'r dull yma wedi codi statws y Cynllun Rheoli yn ymarferol trwy 'gysylltu' pob cam gweithredu ynddo'n fwy uniongyrchol â nodau a blaenoriaethau datganedig yr Awdurdod. O ganlyniad gellir ystyried bellach bod yr adolygiad blynyddol o nodau a blaenoriaethau yn elfen bwysig o'r broses o adolygu'r Cynllun Rheoli.

Mae Parciau Cenedlaethol yn dirweddau gwarchodedig Categori V a ddiffinnir gan Undeb Cadwraeth y Byd (IUCN) lle mae'r cydadwaith rhwng pobl a natur dros amser wedi creu ardal â chymeriad unigryw ac iddi werth ecolegol, biolegol, diwylliannol ac economaidd arwyddocaol. Cawsant eu dynodi'n wreiddiol dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 1949 a'u fframwaith cyfredol yw Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae Adran 61 o'r Ddeddf hon yn nodi dau brif bwrpas y Parc:

1. *'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol'*
2. *'hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau priodweddau arbennig (y Parciau).'*

Mae ardaloedd gwarchodedig Categori V yn dirweddau byw a gweithiol â phriod rinweddau, nodweddion a gwasanaethau sydd wedi cael eu llunio gan y cydadwaith rhwng grymoedd naturiol a rhyngweithio dynol dros amser. Mae cyswllt annatod rhwng y Parc a'i gymunedau ac mae sicrhau bywiogrwydd cymunedau lleol yn gyfwerth â gwarchod a gwella'r Parc a'i adnoddau. Gan hynny mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, wrth fynd ar drywydd y ddau bwrpas statudol, ddyletswydd i:

> *'geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol (o fewn y Parc Cenedlaethol trwy gydweithio'n agos gyda'r asiantaethau a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am y materion hyn)'*

| **Themâu'r Cynllun Rheoli** | |
|---|---|
| **Thema 1:** Rheoli Tirweddau'r Parc i Fanteisio i'r Eithaf ar Fuddion Cyhoeddus a Chadwraeth | Pwrpas 1af |
| **Thema 2:** Cadw a Gwella Bioamrywiaeth | |
| **Thema 3:** Darparu Cyfleoedd Mynediad a Hamdden Awyr Agored i Bawb | 2il Bwrpas |
| **Thema 4:** Cynyddu Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth o'r Parc | |
| **Thema 5:** Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy | Dyletswydd |
| **Thema 6:** Datblygu Economaidd Cynaliadwy | |

### 3. Beth yw ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2014/2015

Mewn ymateb i sylwadau gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ein Cynllun Gwella ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014 rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau i'r berthynas rhwng amcanion a mesurau. Rydym wedi ail-enwi'r amcanion gwella'n 'Flaenoriaethau Gwella' ac wedi creu amcanion gwella sy'n rhai CAMPUS. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu creu mesurau o lwyddiant sydd â chysylltiad agos â'r flaenoriaeth gwella. Mae'r fformat diwygiedig ar gyfer adrodd ar berfformiad fel a ganlyn:

**Themâu'r Cynllun Rheoli**
↓
**Blaenoriaethau Gwella**
↓
**Amcanion Gwella**
↓
**Mesur**
↓
**Targed**

Ers blwyddyn ariannol 2012/2013, mae ein blaenoriaethau gwella wedi bod yn deillio'n uniongyrchol o'r themâu o fewn y Cynllun Rheoli. Bob blwyddyn rydym yn dewis pa rai o'r themâu gwella y byddwn yn eu defnyddio i adrodd ar ein perfformiad. Rydym yn cadw cyfrifoldeb corfforaethol am gyflawni'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Rheoli; fodd bynnag ni allwn warantu buddsoddiad cynyddol ym mhob maes. Bob blwyddyn mae ein cynllun gwella'n nodi pa flaenoriaethau gwella fydd yn darparu'r ffocws ar gyfer gweithgareddau gwella dros y flwyddyn sydd i ddod. Ein huchelgais ni yw y bydd yr holl flaenoriaethau gwella'n cael sylw mewn rhyw ffordd yn ystod oes y Cynllun Rheoli. Fodd bynnag, nid yw nifer o'r camau gweithredu a gynigir yn rhai y gellir eu cyflawni mewn un flwyddyn ariannol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod fe gytunodd yr Awdurdod i ddirwyn y blaenoriaethau gwella ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Maent i'w gweld isod, gyda sail resymegol sy'n cyd-fynd â hwy, 'Pam ydym yn canolbwyntio ar y Flaenoriaeth Gwella hon?' ym mhennod 7 – 'Cyflawni ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2014/2015:

- **Blaenoriaeth Gwella 1** (Thema 1 yn y Cynllun Rheoli - Rheoli Tirweddau'r Parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth):

  *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol*** *y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo*

- **Blaenoriaeth Gwella 2** (Thema 2 yn y Cynllun Rheoli - Cadw a Gwella Bioamrywiaeth):

  *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***Bioamrywiaeth*** *yn cael ei gwarchod a'i gwella*

- **Blaenoriaeth Gwella 3** (Thema 5 yn y Cynllun Rheoli: Adeiladu a Chynnal Cymunedau, Trefi a Phentrefi Cynaliadwy):

  *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol, a balchder cymunedol*** *yn cael eu galluogi*

- **Blaenoriaeth Gwella 4** (Thema 6 yn y Cynllun Rheoli: Datblygu Economaidd Cynaliadwy):

  *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd y defnydd o* ***gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr*** *yn cael ei annog a'i wella*

## 4. Alinio'r Blaenoriaethau Gwella â'r Adnoddau sydd Ar Gael

Bydd 2014/2015 yn flwyddyn gyllidebol heriol iawn i ni. Ni fu'r amgylchedd a'r rhagolygon ariannol sy'n ein hwynebu erioed yn anos ac ni ellir cuddio rhag maint yr heriau yr ydym yn eu profi ar hyn o bryd. Mae galw cynyddol, adnoddau gostyngol a mecanweithiau cyflenwi amgen yn golygu na allwn roi diogeliad ariannol nac adnoddau ychwanegol i'r holl Themâu yn y Cynllun Rheoli yn unrhyw flwyddyn benodol. Mae'r penderfyniad i ddirwyn y blaenoriaethau gwella ymlaen o'r flwyddyn ariannol flaenorol yn adlewyrchu hyn, gan hefyd roi amser i ni ganolbwyntio ar wneud cynnydd go iawn o fewn meysydd dynodedig.

## 5. Gweithio gyda Phartneriaid

Caiff y Cynllun Rheoli ei baratoi gyda chyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned ehangach i feithrin cydberchnogaeth ar, a chefnogaeth i'r weledigaeth, nodau, amcanion, polisïau a chamau gweithredu. Mae hyn yn gynyddol bwysig gan fod adnoddau a gwybodaeth a rennir yn gallu goresgyn rhai o'r rhwystrau a gyflwynir gan yr hinsawdd ariannol gyfredol. Mae gweithio mewn partneriaeth hefyd yn ein helpu i sefyll ynghyd ac mae'n ennyn cefnogaeth gan y cyhoedd.

## 6. Craffu

Yn ogystal ag archwiliadau allanol, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnal ei broses archwilio ei hun trwy gyfres o adolygiadau craffu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella. Cynhelir dau adolygiad bob blwyddyn, gyda'r cyntaf yn canolbwyntio ar flaenoriaeth gwella o'r flwyddyn ariannol

flaenorol (2013-14) a'r ail yn ystyried y cynnydd gydag un o'r blaenoriaethau gwella yr ydym wedi'u dewis ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2014-15.

Rydym yn awyddus i gynnwys y bobl sy'n elwa o'n gwasanaethau yn yr adolygiadau hyn ac mae'r cyhoedd yn gallu pleidleisio i ddewis pa flaenoriaeth gwella ddylai fod yn ffocws ar gyfer ein hadolygiad craffu cyntaf. Yr Awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad terfynol, ond mae'r bleidlais gyhoeddus yn rhan allweddol o'u trafodaethau. Pan fo pwnc wedi cael ei ddewis gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i chwarae rhan weithredol yn y broses graffu a bwydo'u safbwyntiau i mewn i'r panel.

### 7. Cyflawni ein Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2014/2015

Mae'r Awdurdod yn cyflenwi gwasanaethau trwy ei dair Cyfarwyddiaeth:

| | |
|---|---|
| **Prif Weithredwr** | Cymorth a gwasanaethau corfforaethol gan gynnwys paratoi'r Cynllun Rheoli, gwasanaethau democrataidd, adnoddau dynol, cyfathrebu, TG, cyllid, cyfreithiol a gweinyddol. |
| **Cefn Gwlad a Rheoli Tir** | Cadwraeth, rheoli tir, hawliau tramwy, twristiaeth gynaliadwy, cymunedau cynaliadwy, datblygu cymunedol, gwasanaethau wardeniaid ac ystadau, bioamrywiaeth ac ecoleg, Geoparc Fforest Fawr, rheoli eiddo, Canolfannau Ymwelwyr a Chanolfannau Croeso. |
| **Cynllunio** | Gwasanaethau cynllunio, rheoli datblygu, gorfodi, strategaeth a pholisi, treftadaeth adeiledig. |

Mae gwelliannau a sylw parhaus i anghenion y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau'n bwysig i ni ac rydym yn sylweddoli, yng ngoleuni toriadau ac arbedion ariannol yn y sector cyhoeddus, y bydd y rhain yn gryn her.

## Thema 1 yn y Cynllun Rheoli: *Rheoli Tirweddau'r Parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth*

**Blaenoriaeth Gwella 1:** *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***amgylchedd hanesyddol*** *a* ***threftadaeth ddiwylliannol*** *y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo.*

### Pam ydym yn canolbwyntio ar y Flaenoriaeth Gwella hon?

Mae'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol yn creu cyswllt rhwng 2 Bwrpas a Dyletswydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at bob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy.

*Mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn ased pwysig sy'n chwarae rhan hanfodol o ran gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cymunedau Cymru. Mae gofalu am yr ased hwn a'i hyrwyddo yn hollbwysig; unwaith yr ydym ni'n colli elfennau ohono neu'n eu hanghofio, prin iawn y bydd modd eu hadennill*[1].

[1] 'Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru' – Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 2010

Mae archeoleg ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhan allweddol o'i **amgylchedd hanesyddol**. Mae Heneb Restredig (HR) yn safle archeolegol sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Maent wedi cael gwarchodaeth gyfreithiol arbennig gan Cadw a Llywodraeth Cymru. Nid oes rhaid i archeoleg fod o oedran arbennig i fod yn Rhestredig, ac mae'r safleoedd sydd wedi cael eu rhestru'n amrywio o rai sy'n dyddio o'r cyfnod cynhanesyddol i enghreifftiau o'r Ail Ryfel Byd. Ceir Henebion Rhestredig o bob lliw a llun, o garneddau claddu unigol o Oes yr Efydd i gyfadeiladau diwydiannol mawr iawn. Dim ond yr enghreifftiau gorau o bob math o heneb sy'n Rhestredig, a chaiff safleoedd eu dewis yn seiliedig ar feini prawf megis cyflwr, prinder, i ba raddau y maent wedi goroesi, pa mor agored i niwed ydynt a gwerth grŵp. O fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mae 357 Heneb Restredig. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymrwymedig i warchod a gwella'r Henebion Rhestredig hyn.

Mae treftadaeth adeiledig yn ganolog i **dreftadaeth ddiwylliannol** y Parc Cenedlaethol. Mae'n nodwedd y mae trigolion ac ymwelwyr yn uniaethu â hi ac mae ei gwella'n creu ymdeimlad unigryw o le. Mae'r Awdurdod yn ymrwymedig i ddiogelu a gwella treftadaeth adeiledig y Parc Cenedlaethol trwy ostwng nifer yr adeiladau rhestredig sydd mewn perygl. Ar hyn o bryd mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gartref i 1,955 o adeiladau rhestredig, y mae rhai ohonynt yn arbennig o agored i niwed ac angen eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw. Yr adeiladau rhestredig agored i niwed hyn sydd ar y gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl'. Gan fod yr adeiladau hyn mewn perchnogaeth breifat mae angen i'r Awdurdod weithio'n galed gyda pherchnogion i godi ymwybyddiaeth o'u statws trwy gynnig cymorth a chyngor i'w helpu i gynnal a chadw a gofalu am eu hadeiladau. Mae grantiau ar gael hefyd y gall yr Awdurdod eu defnyddio i gynorthwyo perchnogion i ddiogelu eu hadeiladau ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Rydym wedi adnabod 2 amcan gwella, ac o fewn y rhain rydym wedi pennu mesurau perthnasol ac adnabod targedau cyraeddadwy sydd â chysylltiad eglur â'r Flaenoriaeth Gwella. Yr amcanion gwella yw:

Amcan Gwella 1: **Amgylchedd Hanesyddol** – Byddwn yn diogelu ac yn gwella archeoleg y Parc

Amcan Gwella 2: **Treftadaeth Ddiwylliannol** – Byddwn yn gwarchod ac yn gwella'r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc

### Sut fyddwn ni'n ei wneud?

Amcan Gwella 1: **Amgylchedd Hanesyddol** – Byddwn yn cyflawni mesurau cadwraeth gadarnhaol ar Henebion Rhestredig

Amcan Gwella 2: **Treftadaeth Ddiwylliannol** – Byddwn yn gostwng nifer yr adeiladau ar y gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl'

### Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym wedi cyflawni'r flaenoriaeth i warchod a gwella amgylchedd y Parc?

Amcan Gwella 1: **Amgylchedd Hanesyddol** – Byddwn wedi cyflawni mesurau cadwraeth gadarnhaol ar o leiaf 2 Heneb Restredig

Amcan Gwella 2: **Treftadaeth Ddiwylliannol** – Byddwn wedi tynnu 6 adeilad oddi ar y gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl'

| Thema yn y Cynllun Rheoli | Blaenoriaeth Gwella | Amcan Gwella | Mesur | Targed 2013/2014 | Gwirioneddol 2013/2014 | Targed 2014/2015 | Tîm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli Tirweddau'r Parc i fanteisio i'r eithaf ar fuddion cyhoeddus a chadwraeth** | Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd **amgylchedd hanesyddol** a **threftadaeth ddiwylliannol** y Parc yn cael eu gwarchod, eu gwella a'u hyrwyddo | **Amgylchedd Hanesyddol** – Diogelu a gwella archeoleg y Parc | Cyflawni mesurau cadwraeth gadarnhaol ar Henebion Rhestredig | amh. | amh. | 2 Heneb Restredig | Treftad-aeth |
| | | **Treftadaeth Ddiwylliannol** - Gwarchod a gwella'r adeiladau rhestredig mwyaf agored i niwed yn y Parc | Gostwng nifer yr adeiladau ar y gofrestr 'Adeiladau mewn Perygl' | 8 adeilad wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl | yn disgwyl am y data – disgwylir ei gael ar ddiwedd Mawrth 2014 | 6 adeilad wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr Adeiladau mewn Perygl | |

## Thema 2 yn y Cynllun Rheoli: ***Gwarchod a gwella Bioamrywiaeth***

**Blaenoriaeth Gwella 2:** *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***Bioamrywiaeth*** *yn cael ei gwarchod a'i gwella.*

### Pam ydym yn canolbwyntio ar y Flaenoriaeth Gwella hon?

Mae gwarchod a gwella **bioamrywiaeth** wedi'i gorffori ym Mhwrpas 1af Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac mae'n ganolog i gyflawni gweledigaeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae **bioamrywiaeth** o'n cwmpas ym mhobman yn yr awyr, y ddaear a'r dŵr. Mae pethau byw wastad yn newid ac yn dod o hyd i ffyrdd newydd o fyw ac mae rhywogaethau newydd yn esblygu i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael ac felly'n meithrin perthnasoedd cymhleth â'r rhywogaethau eraill o'u cwmpas. Mae'r perthnasoedd hyn yn creu ecosystemau lle mae pob anifail neu blanhigyn yn dibynnu ar y lleill i ddarparu'r gofynion angenrheidiol ar gyfer bywyd: bwyd, lle i fyw a'r moddion i atgynhyrchu'r genhedlaeth nesaf. Mae'r amrywiaeth o amodau yn yr amgylchedd naturiol yn darparu cyfleoedd niferus i wahanol rywogaethau ddod o hyd i'r lle mwyaf addas iddynt fyw ynddo – eu **cynefinoedd**. Mae'r amrywiaeth o rywogaethau'n helpu i sicrhau bod ecosystemau'n iach a bod rhywogaethau'n gallu parhau i esblygu wrth i'r amodau newid. Mae'r amrywiaeth genetig rhwng unigolion o bob rhywogaeth yn helpu i wneud pob cenhedlaeth yn ddigon cryf i allu esblygu ac addasu.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Rydym wedi adnabod 2 amcan gwella, ac o fewn y rhain rydym wedi pennu mesurau perthnasol ac adnabod targedau cyraeddadwy sydd â chysylltiad eglur â'r Flaenoriaeth Gwella. Yr amcanion gwella yw:

Amcan Gwella 3: **Bioamrywiaeth** – Trwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn dod ag ardal o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol

Amcan Gwella 4: **Bioamrywiaeth -** Trwy waith hwyluso, byddwn yn dod ag ardal arall o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol

## Sut fyddwn ni'n ei wneud?

Amcan Gwella 3: **Bioamrywiaeth** – Byddwn yn sefydlu grŵp llywio rheoli safle ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Llangasty – Caeau Tŷ Mawr

Amcan Gwella 4: **Bioamrywiaeth** – Byddwn yn cynorthwyo'r porfawyr ym Mynydd Du i wneud ceisiadau i gynllun Glastir Uwch

## Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym wedi cyflawni'r flaenoriaeth i warchod a gwella amgylchedd y Parc?

Amcan Gwella 3: **Bioamrywiaeth** – Bydd grŵp llywio wedi cael ei sefydlu a bydd o leiaf 1 cyfarfod o'r grŵp llywio wedi cael ei gynnal. Mae hyn yn angenrheidiol i gyrraedd ein nod yn y pen draw, sef cyflawni 'Statws Cadwraeth Ffafriol' ar gyfer Llangasty – Caeau Tŷ Mawr (Cyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd) trwy gyflawni camau gweithredu penodol o fewn y Cynllun Rheoli drafft, a fydd yn datblygu'n fesurau dan y flaenoriaeth hon ymhen blynyddoedd i ddod.

Amcan Gwella 4: **Bioamrywiaeth** – Bydd o leiaf 1 cais yn cael ei wneud. Yn y pen draw byddwn yn datblygu targedau'n seiliedig ar yr ardal o gynefin yr effeithir arni yn y Parc a mesurau'n seiliedig ar y modd y cyrhaeddwyd y targed (gan gynnwys y SoDdGA). Bydd llwyddiant yn seiliedig ar weithredu Elfen Tir Comin Glastir.

| Thema yn y Cynllun Rheoli | Blaenoriaeth Gwella | Amcan Gwella | Mesur | Targed 2013/2014 | Gwirioneddol 2013/2014 | Targed 2014/2015 | Tîm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwarchod a gwella bioamryw-iaeth** | Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd **Bioamryw-iaeth** yn cael ei gwarchod a'i gwella | **Bioamryw-iaeth** - Trwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn dod ag ardal o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol | Sefydlu grŵp llywio rheoli safle ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Llangasty – Caeau Tŷ Mawr | Grŵp Llywio wedi'i Sefydlu ac adolygiad o'r CRh a'r cytundeb lesddaliad wedi'u cwblhau, cerrig milltir ac amcanion wedi'u cytuno a gwaith monitro wedi dechrau | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | Drafft gweithiol o Gynllun Rheoli Llangasty – Caeau Tŷ Mawr yn cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Llywio erbyn diwedd y flwyddyn ariannol[2] | Cadwraeth |
| | | **Bioamryw-iaeth** - Trwy hwyluso, byddwn yn dod ag ardal arall o gynefin dan reolaeth gadwraeth weithredol | Cynorthwyo'r porfawyr ym Mynydd Du i wneud ceisiadau i gynllun Glastir Uwch | Ceisiadau wedi'u cyflwyno yn unol â chanllawiau Cynllun Glastir Uwch cyn dyddiad cau Rhag 2013 | Gwybodaeth lawn i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | Hwyluso gweithrediad un Cytundeb Gwaith Cyfalaf Glastir mewn partneriaeth gyda chymdeithas bori Mynydd Du | |

[2] Gall adroddiadau dilynol ar y Cynllun Gwella Busnes ddangos cynnydd gyda chamau gweithredu o fewn y cynllun hwn

## Thema 5 yn y Cynllun Rheoli: ***Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy***

**Blaenoriaeth Gwella 3:** *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd* ***byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol, a balchder cymunedol*** *yn cael eu galluogi.*

### Pam ydym yn canolbwyntio ar y Flaenoriaeth Gwella hon?

Mae gennym ddyletswydd statudol i feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol. Trwy ganolbwyntio ar y flaenoriaeth gwella hon gallwn roi cymorth i gymunedau yn y parc ddatblygu dulliau confensiynol ac arloesol o gynnal y Parc Cenedlaethol fel lle i **fyw a gweithio mewn modd cynaliadwy**. Yn ei dro, bydd hyn yn datblygu gwydnwch cymdeithasol a balchder cymunedol.

Mae'r Awdurdod yn cynnig cymorth gwirioneddol i brosiectau cymunedol, er enghraifft rydym yn gweinyddu **Cronfa Datblygu Cynaliadwy** leol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gronfa hon yn cyfrannu canran o'r gost ar gyfer prosiectau lleol sy'n gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol, gan greu **gwydnwch cymdeithasol** ymhlith cymunedau lleol.

Un o fanteision cadarnhaol byw o fewn y Parc yw'r cyfle i ymgeisio am hyfforddiant sgiliau gan yr Awdurdod. Mae'r hyfforddiant hwn i bobl leol o grwpiau sydd wedi'u hallgau mewn sgiliau sy'n gysylltiedig â rheoli cefn gwlad – os ydynt yn cwblhau'r rhaglenni hyn yn llwyddiannus mae cyfranogwyr yn derbyn credyd gan Agored Cymru (y sefydliad cenedlaethol yng Nghymru ar gyfer datblygu achrediad). Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi ymrwymo adnoddau sylweddol i gyfathrebu'n well a chydweithio'n agosach gyda chynghorau tref a chymuned ac Un Llais Cymru (y corff cynrychiolaidd mwyaf blaenllaw) i gyflawni **Siarter a Chynllun Gweithredu gyda Chynghorau Cymuned** i ganfod ffyrdd o gydweithio'n well er mwyn cymunedau lleol. Mae cynghorau wedi bod yn cyflawni rôl weithredol o ran gweithio gyda'r Awdurdod ar y prosiect hwn, sy'n beth calonogol, ac mae'r gwaith yma'n parhau ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn parhau i sefydlu **balchder cymunedol** ymhlith cymunedau o fewn y Parc.

Yn ddiweddar fe fabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ei **Gynllun Datblygu Lleol**, yr ymgynghorwyd yn eang yn ei gylch ac y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys strategaeth sy'n ceisio rheoli datblygiad tir ac adeiladau mewn ffordd sy'n cyd-fynd â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac ag egwyddorion ehangach cynaliadwyedd. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio i benderfynu a ddylid cymeradwyo ceisiadau cynllunio. Mae'r Cynllun yn helpu i greu **gwydnwch cymdeithasol** gan ei fod yn un o'r offer hanfodol sydd gan yr Awdurdod i helpu i ganfod ble a sut y gallai cymunedau dyfu ac i gytuno ble y dylid adeiladu tai fforddiadwy newydd.

I ategu'r Cynllun Datblygu Lleol, rydym yn ceisio datblygu model ar gyfer **byw'n gynaliadwy**, gan weithio gyda Chynghorau Cymuned a Thref i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu **cynlluniau pentref** ar gyfer eu cymunedau.

### Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Gan fod gan fwy nag un tîm gyfrifoldeb am gyflawni deilliannau o fewn y flaenoriaeth hon, rydym wedi adnabod 2 amcan gwella, ac o fewn y rhain rydym wedi pennu mesurau perthnasol ac adnabod targedau cyraeddadwy sydd â chysylltiad eglur â'r Flaenoriaeth Gwella. Yr amcanion gwella yw:

Amcan Gwella 5: **Byw'n Gynaliadwy** – Cynyddu nifer y cyfranogwyr sy'n elwa o raglenni sgiliau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Amcan Gwella 6: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Defnyddio grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ysgogi cyllid cyfatebol

Amcan Gwella 7: **Balchder Cymunedol** – Cefnogi datblygiad Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol

Amcan Gwella 8: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Deall sut y mae'r CDLl mabwysiedig yn effeithio ar gymunedau'r Parc

Amcan Gwella 9: **Byw'n Gynaliadwy** – Datblygu a gweithredu cynlluniau sy'n seiliedig ar le mewn partneriaeth gyda chymunedau

## Sut fyddwn ni'n ei wneud?

Amcan Gwella 5: **Byw'n Gynaliadwy** – Byddwn yn cynyddu nifer yr unigolion sy'n cofrestru, yn ymgymryd â hyfforddiant ac yn cael achrediad ar y rhaglenni sgiliau

Amcan Gwella 6: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Byddwn yn gwella'r gymhareb gyllido wirioneddol bob blwyddyn

Amcan Gwella 7: **Balchder Cymunedol** – Byddwn yn cynyddu nifer y Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol a gefnogir trwy gyngor ynghylch datblygu ac/neu gyllid

Amcan Gwella 8: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Byddwn yn datblygu targedau a dangosyddion polisi i fod yn sail i ddealltwriaeth fanwl am gymhwyso'r Cynllun Datblygu Lleol

Amcan Gwella 9: **Byw'n Gynaliadwy** – Byddwn yn datblygu proses gymeradwy ar gyfer y dulliau o gynhyrchu cynlluniau sy'n seiliedig ar le

## Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym wedi cyflawni'r flaenoriaeth i warchod a gwella amgylchedd y Parc?

Amcan Gwella 5: **Byw'n Gynaliadwy** – Byddwn wedi cyrraedd targed o 26 o fuddiolwyr

Amcan Gwella 6: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Byddwn wedi cyflawni cymhareb isafswm o 2:1 ar gyfer cyllid cyfatebol

Amcan Gwella 7: **Balchder Cymunedol** – Byddwn wedi cefnogi 50 o Brosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol trwy roi cyngor ynghylch datblygu ac/neu gyllid

Amcan Gwella 8: **Gwydnwch Cymdeithasol** – Byddwn wedi datblygu 52 o dargedau a dangosyddion polisi i fod yn sail i ddealltwriaeth fanwl am gymhwyso'r Cynllun Datblygu Lleol

Amcan Gwella 9: **Byw'n Gynaliadwy** – Byddwn wedi mabwysiadu 1 cynllun pentref

| Thema yn y Cynllun Rheoli | Blaenoriaeth Gwella | Amcan Gwella | Mesur | Targed 2013/2014 | Gwirioneddol 2013/2014 | Targed 2014/2015 | Tîm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adeiladu a chynnal cymunedau, trefi a phentrefi cynaliadwy** | Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd **byw'n gynaliadwy, gwydnwch cymdeithasol, a balchder cymunedol** yn cael eu galluogi | **Byw'n Gynaliadwy -** Cynyddu nifer y cyfranogwyr sy'n elwa o raglenni sgiliau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Unigolion sy'n cofrestru, yn ymgymryd â hyfforddiant ac yn cael achrediad | 26 *(yn flaenorol 'Nifer y buddiolwyr sydd wedi elwa o raglenni sgiliau')* | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | 26 o fuddiolwyr | Cymunedau Cynaliadwy |
| | | **Gwydnwch Cymdeithasol –** Defnyddio grantiau'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy i ysgogi cyllid cyfatebol | Y gymhareb gyllido wirioneddol bob blwyddyn | 2:1 | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | Cymhareb isafswm o 2:1 | |
| | | **Balchder Cymunedol –** Cefnogi datblygiad Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol | Nifer y Prosiectau Cymunedol sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol a gefnogir trwy gyngor ynghylch datblygu ac/neu gyllid | amh. | amh. | 50 o Brosiectau wedi'u cefnogi | |
| | | **Gwydnwch Cymdeithasol –** Deall sut y mae'r CDLl mabwysiedig yn effeithio ar gymunedau'r Parc | Datblygu targedau a dangosyddion polisi i fod yn sail i ddealltwriaeth fanwl am gymhwyso'r Cynllun Datblygu Lleol | amh. | amh. | 52 o dargedau a dangosyddion polisi | Polisi Cynllunio |
| | | **Byw'n Gynaliadwy –** Datblygu a gweithredu cynlluniau sy'n seiliedig ar le mewn partneriaeth gyda chymunedau | Datblygu proses gymeradwy ar gyfer y dulliau o gynhyrchu cynlluniau sy'n seiliedig ar le | Fframwaith wedi'i ddatblygu a gweithdy wedi cael ei gynnal | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | Mabwysiadu 1 cynllun pentref | |

## Thema 6 yn y Cynllun Rheoli: *Datblygu Economaidd Cynaliadwy*

**Blaenoriaeth Gwella 4:** *Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd y defnydd o **gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr** yn cael ei annog a'i wella.*

## Pam ydym yn canolbwyntio ar y Flaenoriaeth Gwella hon?

Mae'r Parc Cenedlaethol yn gartref i amrywiaeth o **fusnesau**. Mae gan nifer o'r rhain ddiddordeb mewn gwybod sut y gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd, nid dim ond i ddiogelu'r Parc Cenedlaethol ac i ddenu cyhoedd craff, ond hefyd mewn ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd megis prisiau tanwydd cynyddol. Mae busnesau twristiaeth a darparwyr gweithgareddau'r Parc yn gweithio i gynyddu'r manteision i'r eithaf yn lleol. Mae busnesau twristiaeth lleol eisoes yn gweithio gyda'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a Geoparc Fforest Fawr ac maent wedi bod yn gwneud cynnydd mawr o ran datblygu **rhwydweithiau cludiant cynaliadwy**, creu cadwyni cyflenwi lleol gan hyrwyddo cynhyrchwyr lleol, buddsoddi mewn cymunedau lleol a hybu datblygu economaidd cynaliadwy. Mae busnesau hefyd yn allweddol o ran darparu gwybodaeth ar gyfer ymwelwyr ynghylch cael mynediad at gludiant cyhoeddus.

Mae tensiwn rhwng y manteision economaidd sy'n deillio o annog twristiaid i ymweld â'r ardal a'r effaith negyddol o ran ôl troed carbon a llygredd cynyddol a achosir gan unigolion sy'n teithio pellterau hir mewn car neu hyd yn oed awyren i gyrraedd cyrchfan gwledig pellennig gydag isadeiledd cludiant cyhoeddus cyfyngedig. Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi bod yn ymgodymu â hyn ac mae nifer o ddatrysiadau creadigol ac arloesol wedi cael eu cyflwyno. Rydym yn gweithio i **hyrwyddo llwybrau bysiau** a theithlenni ar gyfer gweithgareddau y gellir eu cyrraedd ar y bws.

## Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Rydym wedi adnabod 2 amcan gwella, ac o fewn y rhain rydym wedi pennu mesurau perthnasol ac adnabod targedau cyraeddadwy sydd â chysylltiad eglur â'r Flaenoriaeth Gwella. Yr amcanion gwella yw:

Amcan Gwella 10: **Cludiant Cynaliadwy** – Bydd busnesau'n cael hyfforddiant mewn cludiant cynaliadwy

Amcan Gwella 11: **Cludiant Cynaliadwy** – Cynhyrchu taflen amserlenni bysiau i ymwelwyr

## Sut fyddwn ni'n ei wneud?

Amcan Gwella 10: **Cludiant Cynaliadwy** – Byddwn yn darparu cyrsiau hyfforddi ar gludiant ar gyfer y sector preifat

Amcan Gwella 11: **Cludiant Cynaliadwy** – Byddwn yn cynhyrchu ac yn dosbarthu taflen amserlenni bysiau i ymwelwyr

## Sut fyddwn ni'n gwybod a ydym wedi cyflawni'r flaenoriaeth i warchod a gwella amgylchedd y Parc?

Amcan Gwella 10: **Cludiant Cynaliadwy** – Byddwn wedi hyfforddi 24 o bobl yn y sector preifat ar gludiant cynaliadwy

Amcan Gwella 11: **Cludiant Cynaliadwy** – Byddwn wedi cynhyrchu a dosbarthu 30,000 o daflenni amserlenni bysiau i ymwelwyr

Gall prosiectau newid yn sylweddol oherwydd materion o ran cyllid allanol. Ar hyn o bryd mae'n anodd ymrwymo i gyflawni'r naill na'r llall o'r rhain nes byddwn yn gwybod pa gyllid sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn nesaf.

| Thema yn y Cynllun Rheoli | Blaenoriaeth Gwella | Amcan Gwella | Mesur | Targed 2013/2014 | Gwirioneddol 2013/2014 | Targed 2014/2015 | Tîm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Datblygu economaidd cynaliadwy** | Trwy bartneriaeth, gwaith hwyluso a chamau gweithredu ymarferol effeithiol a'r swyddogaeth gynllunio bydd y defnydd o **gludiant cynaliadwy gan ymwelwyr** yn cael ei annog a'i wella | **Cludiant Cynaliadwy –** Bydd busnesau'n cael hyfforddiant mewn cludiant cynaliadwy | Nifer y cyrsiau hyfforddi ar gludiant a drefnwyd ar gyfer y sector preifat[3] | 20 | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | 24 o bobl wedi'u hyfforddi | Twristiaeth Gynaliadwy |
| | | **Cludiant Cynaliadwy –** Cynhyrchu taflen amserlenni bysiau i ymwelwyr | Nifer y taflenni amserlenni bysiau a gynhyrchwyd i ymwelwyr | 30,000 | Gwybodaeth i gael ei darparu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol | 30,000 | |

## 8. Monitro Perfformiad

Bydd y manylion hyn yn cael eu mesur, eu cofnodi a'u hasesu yn ein System Rheoli Perfformiad o'r enw 'Ffynnon' a byddant yn darparu'r sail ar gyfer adrodd ar ein perfformiad. Mae'r wybodaeth a lanlwythir i Ffynnon yn cynnwys data craidd ar ddangosyddion perfformiad statudol a dangosyddion perfformiad lleol sy'n dangos gwaith pob Cyfarwyddiaeth yn ei gyd-destun trwy ddangos llwyth gwaith, achosion, ffigyrau, niferoedd a thargedau. Mae adroddiadau Ffynnon yn cael eu cynhyrchu'n chwarterol a'u cyflwyno i Bwyllgor yr Awdurdod Parc Cenedlaethol gan amlygu'r meysydd sydd wedi gwella neu'r meysydd y mae gofyn rhoi sylw iddynt.

Er mwyn monitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd, bydd adroddiadau cynnydd hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu bob chwarter ar un flaenoriaeth gwella benodol. Yn ogystal â hyn, bydd yr Awdurdod yn parhau i feincnodi ei berfformiad gyda Pharciau Cenedlaethol eraill Cymru a bydd y manylion hyn hefyd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor yr Awdurdod Parc Cenedlaethol pan fyddant ar gael. Bydd y gwelliannau'n cael eu dangos mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

- Dangosyddion perfformiad (sy'n cynnwys y rhai sy'n genedlaethol ac yn statudol a'r rhai sy'n lleol)
- Ymgynghori â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau trwy arolygon a dulliau eraill.
- Asesu mewnol
- Archwiliadau gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Meincnodi a chyrraedd targedau

Mae gennym drefniadau llywodraethu corfforaethol a mesurau mewnol cryf i reoli ymddygiad yr Awdurdod. Rydym wedi mabwysiadu cod enghreifftiol a ategir gan ganllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru[4]. Mae'r cod yn seiliedig ar saith egwyddor bywyd cyhoeddus, a nodwyd gyntaf yn y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) ac a ddiffiniwyd yn fwyaf diweddar yng Nghymru mewn Offeryn Statudol fel:

1. Anhunanoldeb

[3] *Bydd y tîm Twristiaeth Gynaliadwy'n cysylltu â busnesau sydd wedi cael cyrsiau hyfforddiant ar gludiant ar ddiwedd y tymor (Medi), er mwyn ceisio adborth neu gyngor a roddwyd i'w gwesteion o ganlyniad i'r hyfforddiant*

[4] http://www.ombudsman-wales.org.uk/en/publications/?pID=254

2. Gonestrwydd
3. Uniondeb a Phriodoldeb
4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith
5. Stiwardiaeth
6. Gwrthrychedd wrth Wneud Penderfyniadau
7. Cydraddoldeb a Pharch
8. Bod yn Agored
9. Atebolrwydd
10. Arweiniad

Mae ystod o bolisïau wedi cael eu mabwysiadu o fewn yr Awdurdod i gyflawni'r egwyddorion hyn. Cânt eu cefnogi gan yr Aelodau, Swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a Chraffu, y Pwyllgor Safonau, y Swyddog Monitro, Cyfreithwyr yr Awdurdod, y Weithdrefn Gwynion a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cymhwyso'r egwyddorion hyn i'n prosesau penderfynu a'n hymrwymiad i wella ein gwasanaethau.

Mae'r Cynllun Gwella hwn yn eistedd o fewn fframwaith cynllunio uchelgeisiol, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, sy'n mapio datblygiadau yn y Parc dros yr ugain mlynedd nesaf. Bydd ein profiadau'n parhau i oleuo a dylanwadu ar raglenni gwaith, cyllidebau a chynigion cyllido wrth i ni ymegnïo i fynd y tu hwnt i'n targedau. Os hoffech unrhyw wybodaeth ychwanegol am y Cynllun Gwella neu os hoffech awgrymu meysydd gwaith lle mae angen i ni wella ysgrifennwch at Mr John Cook, Prif Weithredwr, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Plas y Ffynnon, Ffordd Cambria, Aberhonddu, LD3 7HP, Powys neu anfonwch neges e-bost i improvements@breconbeacons.org

Cyhoeddwyd: Ebrill 2014

**Datganiad o Gyfrifoldeb**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sy'n gyfrifol am baratoï'r Cynllun Gwella hwn, yr wybodaeth a'r asesiadau a nodir ynddo a'r amcangyfrifon y maent yn seiliedig arnynt.

Mae'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwelliannau yn ei berfformiad a'r mesurau rheoli mewnol y mae'r wybodaeth a'r asesiad yn y Cynllun hwn wedi cael eu cynhyrchu ohonynt.

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod cynnwys y Cynllun, ym mhob ffordd berthnasol, yn gywir ac yn gyflawn, yn realistig ac yn gyraeddadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael.